**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Dafydd Elis-Thomas

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Llywodraeth Cymru

26 Medi 2019

Annwyl Dafydd,

**Recriwtio ar gyfer swydd Cyfarwyddwr, Cymru Greadigol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Awst, lle rhoesoch yr wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau llywodraethu ar gyfer Cymru Greadigol. Soniasoch yn y llythyr fod gwaith ar y gweill i recriwtio Dirprwy Gyfarwyddwr i arwain Cymru Greadigol. Rwy'n deall bod y swydd hon wedi'i hysbysebu'n fewnol yn Llywodraeth Cymru a bod penodiad wedi'i wneud.

A allwch egluro pam y gwnaethoch benderfynu hysbysebu'r swydd yn fewnol o fewn y Llywodraeth yn hytrach na'i gwneud yn agored i ymgeiswyr allanol sydd â phrofiad ac arbenigedd yn y diwydiannau creadigol?

Yn eich ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar gynyrchiadau ffilm a theledu mawr, a gyhoeddwyd ym mis Mai, dywedasoch y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp o gynrychiolwyr o'r diwydiant a fydd yn darparu adborth i Cymru Greadigol. A allwch ddweud rhagor am sut y bydd cynrychiolwyr y diwydiant yn gweithio gyda Bwrdd Cymru Greadigol?

A allwch gadarnhau bod Bwrdd Cymru Greadigol yn cynnwys aelodau sydd ag arbenigedd perthnasol yn y diwydiant? Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r llythyr hwn erbyn 24 Hydref er mwyn imi allu rhoi gwybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor.

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bethan Sayed, AC
Cadeirydd – Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Hydref 2019

Annwyl Gadeirydd,

**Recriwtio ar gyfer swydd Cyfarwyddwr, Cymru Greadigol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Medi yn gofyn am eglurhad pellach o'r uchod.

Cafodd swydd y Dirprwy Gyfarwyddwr ei hysbysebu'n fewnol o fewn Llywodraeth Cymru ac ar draws y Gwasanaeth Sifil. Mae'n arfer safonol ar gyfer swyddi'r Uwch Wasanaeth Sifil cyn hysbysebu'n allanol. Nid ydym wedi penodi unrhyw un eto, ac mae'r broses recriwtio yn dal ar waith, felly byddai'n amhriodol i mi wneud sylwadau pellach.

Mae grŵp cynrychiolwyr y diwydiant y cyfeiriwyd ato ym mis Mai, a Bwrdd Cymru Greadigol, yr un peth. Mae'n hollbwysig fod y Cadeirydd ac aelodau allanol eraill yn cael eu penodi ar sail profiad perthnasol ar draws y Sector. Byddwn yn hysbysebu am aelodau'r Bwrdd pan gaiff Cymru Greadigol ei lansio ddiwedd Tachwedd.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.